# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
# Pecyn Gwybodaeth i Gynghorwyr Datblygu Ymchwil

## Contents


Pecyn Gwybodaeth i Gynghorwyr Datblygu Ymchwil ........................................1

Cefndir........................................................................................................1

Y broses recriwtio.......................................................................................2

Tasgau a chyfrifoldebau allweddol 2023 ....................................................2

Manyleb Person..............................................................................................5

Cwblhau'r Ffurflen Gais .................................................................................7


## Cefndir

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu seilwaith datblygu a darparu ymchwil helaeth i gefnogi ymchwil clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei wneud mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn rhan o'r seilwaith hwnnw, sefydlwyd Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i:

- Cydgysylltu a goruchwylio amrywiaeth o gynlluniau dyfarniadau ymchwil personol sydd ar gael yn eang (ac wedi'u targedu pan fo angen) i ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar draws proffesiynau a chyfnodau gyrfaol
- Cyhoeddi data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymchwilwyr a datblygu cynlluniau gweithredu i helpu i hwyluso'r gynrychiolaeth gyfartal o bob grŵp, ar draws cyfnodau gyrfaol a phroffesiynau, ym mhoblogaeth ymchwilwyr Cymru
- Bwrw ymlaen â'r dysgu a datblygiad cymheiriaid a mentoriaeth unigoledig sydd eu hangen ar ddeiliaid ein dyfarniadau personol iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil
- Meithrin rhyngweithio a rhwydweithio amlddisgyblaeth ar draws y gymuned gyfadran o ddeiliaid dyfarniadau personol iechyd a gofal cymdeithasol o bob cefndir ac o bob rhan o Gymru
- Galluogi cyfleoedd i rannu ymchwil cyfadran o ansawdd uchel gyda chymunedau'r DU a rhyngwladol perthnasol gyda'r nod o godi proffil ymchwil Cymru a hybu cyfleoedd gyrfaoedd ymchwil yr ymchwilwyr eu hunain.

Bydd Cynghorwyr Datblygu Ymchwil Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn datblygu ac yn darparu dulliau datblygiadol ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol o ansawdd uchel i Aelodau Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n galluogi aelodau i:

a) datblygu ceisiadau am gyllid cystadleuol ac o ansawdd uchel i'w cyflwyno i raglenni ariannu a adolygir gan gymheiriaid cenedlaethol ar draws y DU;
b) darparu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol ac o ansawdd uchel er budd pobl yng Nghymru a thu hwnt;
c) datblygu eu gwybodaeth ymchwil, eu sgiliau a'u hyder fel y gallant gyfrannu yn y pen draw at ddatblygiad gweithlu ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol academaidd hynod fedrus yng Nghymru.

## Y broses recriwtio

Mae Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwriadu prynu amser (hyd at 0.4 cyfwerth ag amser llawn) i hyd at 3 Cymrawd Ymchwil Uwch / Uwch Ddarlithydd ddarparu **swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil. Bydd y Cynghorwyr Datblygu Ymchwil yn parhau i gael eu cyflogi gan eu cyflogwr presennol gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu ad-dalu'r sefydliad cyflogi am yr amser a dreulir yn cyflawni'r swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil.**

Mae gennym ddiddordeb mewn ceisiadau gan ymchwilwyr iechyd a/neu ofal cymdeithasol profiadol sy'n gweithio ar lefel Uwch Ddarlithydd neu Gymrawd Ymchwil Uwch (neu rywun sy'n gallu dangos sut y gallant gyflawni yn unol â disgwyliadau'r swydd yn seiliedig ar brofiad perthnasol). Gall yr ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yn unrhyw un o'r Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.

Bydd y swyddi am 2 flynedd ac fel y manylion a nodir yn y Tasgau/Cyfrifoldebau a'r Fanyleb Person isod. Dylai ymgeiswyr gwblhau'r Ffurflen Gais Cynghorydd Datblygu Ymchwil a'i hanfon erbyn **17:00 ar 17 Mawrth 2023** i Research-Faculty@wales.nhs.uk.

## Tasgau a chyfrifoldebau allweddol 2023

Gan weithio yn atebol i Gyfarwyddwr y Gyfadran ac ochr yn ochr â'r Pennaeth Datblygu Ymchwil, bydd y Cynghorwyr Datblygu Ymchwil yn darparu cymorth datblygu ymchwil cydlynol i aelodau Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ledled Cymru.

Mae Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn chwilio am nifer o Gynghorwyr Datblygu Ymchwil rhan-amser yn gweithio hyd at 0.4 cyfwerth ag amser llawn yr un sydd ag ehangder o brofiad rhyngddynt i gyfrannu at ddatblygiad a chymorth cyffredinol mentrau datblygiad ymchwil i Aelodau'r Gyfadran. Bydd y Cynghorwyr Datblygu Ymchwil yn:

- Darparu amrywiaeth o fentrau datblygu ymchwilwyr wedi'u targedu yn gysylltiedig â chynlluniau dyfarniadau personol Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Darparu hyfforddiant dylunio a dulliau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol hygyrch sy'n berthnasol i gynlluniau dyfarniadau personol ac aelodau Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Darparu proses gyfeirio gynhwysfawr ar draws Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gyfan i gefnogi mewnbwn arbenigwyr pwnc i gynigion ymchwil ar bob cam o gylch oes y cais am gyllid.

Gan weithio gyda Chyfarwyddwr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a thîm gweinyddol Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, bydd y Cynghorwyr Ymchwil yn: Cynllunio, dylunio a gwerthuso amrywiaeth o fentrau datblygu ymchwilwyr wedi'u targedu yn gysylltiedig â chynlluniau dyfarniadau personol Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Gallai hyn gynnwys:

- Gweithdai a sesiynau cwestiwn ac ateb i gefnogi datblygiad ymgeisio'r cynllun dyfarniadau personol penodol y Gyfadran
- Cymorth cofleidiol a chyngor methodolegol i ddeiliaid dyfarniadau Cyflymu Dyfarniad Personol i ganiatáu ceisiadau o ansawdd uchel i gynlluniau dyfarniadau personol y DU gyfan
- Cyngor dylunio a dulliau ymchwil unigoledig ac ymatebol i aelodau'r Gyfadran sy'n cyflawni eu hastudiaethau a ariannwyd a chefnogi camau nesaf

Cynllunio, darparu a gwerthuso hyfforddiant dylunio a dulliau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol cymhwysol hygyrch sy'n berthnasol i gynlluniau dyfarniadau personol ac aelodau Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:

- Gweithio gyda thîm gweinyddol y Gyfadran, ymgysylltu ag aelodau'r Gyfadran i gael y ddealltwriaeth orau o anghenion hyfforddiant dylunio a dulliau ymchwil.
- Datblygu a darparu cyfres o gyfleoedd dysgu, yn rhan o gynllun ehangach Datblygu Aelodau'r Gyfadran. Gallai darpariaeth y cyfleoedd dysgu hyn fod trwy rith-sesiynau hyfforddi, sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb, gweminarau, e-ddysgu ac ati.
- Gwerthuso canlyniadau dysgu ac effaith hyfforddiant a ddarperir i aelodau'r Gyfadran i hysbysu strategol yn y dyfodol

Datblygu a gweithredu proses gyfeirio gynhwysfawr ar draws Gyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gyfan i gefnogi mewnbwn arbenigwyr pwnc i gynigion ymchwil ar bob cam o gylch oes y cais am gyllid:

- Datblygu a chynnal gwybodaeth drylwyr am yr holl gyfleoedd ariannu ymchwil perthnasol yn y DU sydd ar gael i aelodau Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

- Darparu cyngor ymatebol i aelodau’r Gyfadran sy’n ceisio nodi camau gyrfaol nesaf
- Gweithio’n rhagweithiol ac yn strategol gyda deiliaid dyfarniadau Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru blwyddyn olaf i hwyluso cynllunio datblygiad gyrfaol yn y dyfodol.

Bod yn aelod gweithredol o Uwch Dîm Rheoli Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy:

- Fynychu holl ddigwyddiadau wyneb yn wyneb Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan ymgysylltu ag aelodau’r Gyfadran a rhwydweithio â nhw
- Arwain prosiectau penodol yn ymwneud a mentrau Datblygu Ymchwil o fewn Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn grwpiau proffesiynol a SAUau
- Cyfrannu at ddatblygiad cynlluniau strategol ar gyfer cynorthwyo aelodau’r Gyfadran a mireinio cynlluniau dyfarniadau personol sy’n cael eu rhedeg gan dîm gweinyddol Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Darparu adroddiadau ar weithgareddau Cynghorwyr Datblygu Ymchwil i Gyfarwyddwr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru bob tri mis.

Bydd y cyfrifoldebau hyn yn destun adolygiad yn ystod cyfnod y penodiad.

# Manyleb Person

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn bwriadu ariannu hyd at 3 **Cynghorydd Datblygu Ymchwil** rhan-amser (Uwch Ddarlithydd neu Gymrawd Ymchwil Uwch neu'n gallu dangos sut y gallant gyflawni yn unol â disgwyliadau'r swydd yn seiliedig ar brofiad perthnasol) a fydd yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwylio'r amrywiaeth o fentrau datblygu ymchwilwyr wedi'u targedu Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Rhagwelir y bydd cyllid ar gyfer hyd at 0.4 cyfwerth ag amser llawn fesul swydd ar gael; yn seiliedig ar 2-3 swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil ledled Cymru (gellir trafod hyn fodd bynnag). **Bydd y Cynghorwyr Datblygu Ymchwil yn parhau i gael eu cyflogi gan eu cyflogwr presennol gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu ad-dalu'r sefydliad cyflogi am yr amser a dreulir yn cyflawni'r swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil.**

Rhestrir y fanyleb person ar gyfer y Cynghorwyr Datblygu Ymchwil isod:

## Hanfodol

**Cymwysterau ac Addysg**

1. Gradd ôl-raddedig ar lefel doethuriaeth.

**Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad**

2. Arbenigedd wedi'i hen sefydlu a phortffolio profedig sylweddol o waith ymchwil ym maes iechyd a/neu ofal cymdeithasol.
3. Hanes sylweddol profedig o gyhoeddiadau mewn cyfnodolion cenedlaethol a rhyngwladol effeithiol.
4. Arbenigedd methodoleg iechyd a/neu ofal cymdeithasol cymhwysol (dulliau meintiol a/neu ansoddol).
5. Hanes profedig o gyfrannu at gynigion ymchwil llwyddiannus a'u harwain.
6. Gallu profedig i ddatblygu a chynorthwyo ymchwilwyr gyrfa gynnar a'r rhai sy'n symud ymlaen i ganol eu gyrfa.
7. Gwybodaeth am ofynion a phrosesau arianwyr ymchwil.
8. Arbenigedd mewn cyfranogiad cleifion a'r cyhoedd o ansawdd uchel mewn gwaith ymchwil.

**Cyfathrebu a Gwaith Tîm**

9. Hynod fedrus o ran cyfathrebu effeithiol a pherswadiol.

**Arall**

10. Gallu profedig i ddangos creadigrwydd, arloesedd a gwaith tîm yn yr amgylchedd ymchwil.

**Dymunol**

11. Gallu profedig i arwain a darparu hyfforddiant dylunio a dulliau ymchwil o ansawdd uchel.
12. Gallu profedig i addasu i ofynion newidiol y gymuned ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
13. Gwybodaeth am fentrau datblygu ymchwilwyr
14. Gallu i weithio'n strategol.
15. Rhuglder yn y Gymraeg, ysgrifenedig a llafar.

**Mae'n rhaid i chi gadarnhau cefnogaeth gan eich sefydliad cyn ymgeisio.**

## Cymorth Ariannol

Bydd cyflog ac argostau yn cael eu had-dalu i'r sefydliad SAU cyflogi bob tri mis trwy drefniant grant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Bydd cyllideb defnyddiau traul fach hefyd yn cael ei darparu i Gynghorwyr Datblygu Ymchwil wedi'i had-dalu gan ddefnyddio'r un mecanwaith ariannu, yn seiliedig ar eu hagweddau i'w cyflawni penodol a gytunwyd ar sail flynyddol.

Pan fo' bosibl, dylid sicrhau bod y costau hyn cyn lleied â phosibl trwy ddefnyddio cyfleusterau presennol y GIG neu SAUau.

# Cwblhau'r Ffurflen Gais

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau, fesul cwestiwn, ar sut i gwblhau ffurflen gais y swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil.

I ymgeisio, dylid cyflwyno'r canlynol drwy e-bost:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau (gweler isod)
- CV yr ymgeisydd (uchafswm o 2 dudalen)
- E-bost cadarnhau gan y Pennaeth Adran yn eich SAU cysylltiedig (gweler isod)
- E-bost cadarnhau gan Reolwr Llinell/Arweinydd Cyllid (gweler isod)

## Adran A: Manylion yr Ymgeisydd

Darparwch fanylion cyswllt. Bydd cyswllt rhwng Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r ymgeisydd drwy e-bost fel rheol, felly gofalwch eich bod yn darparu cyfeiriad e-bost presennol ac a ddefnyddir yn rheolaidd. Rydym yn rhagweld y bydd yr ymgeisydd wedi'i leoli mewn Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru. Nodwch y SAU y bydd y cyllid yn mynd drwyddo.

Y SAU fydd y sefydliad y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno contract ffurfiol ag ef os bydd eich cais yn llwyddiannus. Os ydych wedi'ch lleoli y tu allan i SAU yng Nghymru, cysylltwch â'r Athro Monica Busse, Cyfarwyddwr Cyfadran Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, BusseME@cardiff.ac.uk NEU Alex Hills, Pennaeth Datblygu Ymchwilwyr Cenedlaethol, Alex.Hills@Wales.nhs.uk i drafod eich cais.

## Adran B: Cynllun gweithgareddau (uchafswm o 600 o eiriau)

Gan gyfeirio at y fanyleb person, disgrifiwch sut y bydd eich **profiad hyd yma** yn sicrhau y gallwch fodloni disgwyliadau'r swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil. Disgrifiwch yr holl brofiad perthnasol, yn enwedig o ran cefnogi / mentora ymchwilwyr yn gynharach yn eu gyrfaoedd, darpariaeth flaenorol o hyfforddiant i unigolion a grwpiau ac amlinellwch ble'r ydych yn credu y bydd eich cryfderau a'ch profiad yn cael yr effaith fwyaf ar y swyddogaeth hon.

Gan gyfeirio at ddisgwyliadau swydd y Cynghorydd Datblygu Ymchwil, disgrifiwch y camau penodol yr ydych yn bwriadu eu cymryd a fydd yn hwyluso bodloni amcanion y Gyfadran. Disgrifiwch yr hyn yr ydych yn credu y gellir ei gyflawni o fewn y 2 flynedd nesaf gan gyfeirio at y swyddogaethau/cyfrifoldebau a restrir uchod. Dylai hyn fod yn realistig ond yn uchelgeisiol o gofio faint o amser yr ydych yn gofyn amdano. Efallai yr hoffech amlygu eich tri phrif nod, amcan a'r manteision disgwyliedig a fydd yn cael eu darparu.

Disgrifiwch sut y byddech yn gweithio yn rhan o dîm o Gynghorwyr Datblygu Ymchwil i gyflawni'r ystod o weithgareddau a restir uchod. Bydd y swydd hon yn un o 3 swydd yn cydweithio i gyflawni nodau cyffredinol y cymorth cynghori ymchwil a amlinellir uchod. Gallech ddisgrifio profiad blaenorol o weithio mewn tîm i gyflawni nod cyffredin. Efallai yr hoffech amlinellu'r hyn yr ydych yn ei deimlo yw eich cryfderau unigryw a fyddai o fudd i'r tîm.

## Adran C: Patrwm Gweithio

Cadarnhewch faint o amser yr ydych yn ymgeisio amdano – gall hyn fod o isafswm o 0.2 cyfwerth ag amser llawn i uchafswm o 0.4 cyfwerth ag amser llawn.

Cadarnhewch eich dyddiad cychwyn arfaethedig – dylai hwn fod cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill 2023, ond o fewn 3 mis fan bellaf.

Darparwch grynodeb hefyd o'ch patrwm gweithio presennol ac arfaethedig yn dangos yr amser yn y swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil. Lle mae gennych swydd ar draws mwy nag un sefydliad, dangoswch y cynllun yn ei gyfanrwydd, a pha swydd fydd yn cael ei haddasu i hwyluso'r amser fel Cynghorydd Datblygu Ymchwil. Rydym yn cydnabod y gallai hyn amrywio o un wythnos i'r llall, felly mae cynllun patrwm gweithio cyffredinol yn dderbyniol. Ni ddylai'r cynllun patrwm gweithio arfaethedig fod yn fwy nag 1 cyfwerth am amser llawn.

Dylech gynnwys e-bost gan eich rheolwr llinell yn y swydd y bydd y patrwm gweithio yn newid ynddi, gyda'r geiriad canlynol:

> "Rwy'n cadarnhau mai fi yw rheolwr llinell yr ymgeisydd a fy mod wedi cytuno ar y cynllun patrwm gweithio ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer y swydd Cynghorydd Datblygu Ymchwil fel yr amlinellir ar y ffurflen gais, pe bai'r ymgeisydd yn llwyddiannus"

## Adran D: Cyllid

Cwblhewch y tabl cyllid. Dylech ddarparu eich costau cyflog disgwyliedig (gan gynnwys argostau) ar gyfer y 2 flynedd nesaf a'ch costau cyfwerth ag amser llawn disgwyliedig (gan gynnwys argostau) yn y rhes briodol. Sylwer bod yn rhaid i chi gynnwys argostau sy'n gysylltiedig â'ch cyflog ar y cam hwn gan na fydd yn bosibl eu hychwanegu yn ddiweddarach. Ni fydd unrhyw orbenion yn cael eu talu.

## Adran F: Datganiadau

Mae cyflwyno'r ffurflen gais hon drwy e-bost yn cadarnhau eich bod yn deall ac yn ymrwymo i gyflawni'r swydd fel y nodir uchod. Mae angen e-byst cadarnhau gan Bennaeth yr Adran a'ch Rheolwr Llinell hefyd. Nid oes angen unrhyw lofnodion ar wahân.